Rhan J – Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain

Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Datblygiad Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol

3 Y fframwaith safonau perfformiad

4 Y broses hunanasesiad
- Safon perfformiad 1: Defnyddio ffynonellau gwybodaeth i gadarnhau cofnodion ar y gofrestr etholwyr a dynodi etholwyr newydd posib
- Safon perfformiad 2: Cynnal y gronfa ddata eiddo
- Safon perfformiad 3: Ymholiadau tŷ-i-dŷ
- Safon perfformiad 4: Cynnal cywirdeb cofrestru a cheisiadau pleidlais absennol
- Safon perfformiad 5: Cyflenwad a diogelwch y gofrestr a rhestrau pleidleiswyr absennol
- Safon perfformiad 6: Strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus
- Safon perfformiad 7: Gweithio gyda phartneriaid
- Safon perfformiad 8: Hygyrchedd a chyfathrebu gwybodaeth
- Safon perfformiad 9: Cynllunio ar gyfer cofrestru parhaus a'r canfasiad blynyddol
- Safon perfformiad 10: Hyfforddiant

5 Deddfwriaeth

6 Y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau etholiadol o safon

1 Cyflwyniad

1.1 Pwrpas y cyfarwyddyd hwn yw cynorthwyo Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gwblhau eu hadroddiadau hunanasesiad yn erbyn safonau perfformiad y Comisiwn Etholiadol a gyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf 2008.



Gellir lawrlwytho'r ffurflen hunanasesiad o'n gwefan ar www.electoralcommission.org.uk/performance-standards/assessment-criteria

1.2 Diwygiodd y Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006 (EAA) y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) er mwyn rhoi pwerau i'r Comisiwn osod safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol, Swyddogion Canlyniadau (ROs)[1] a Swyddogion Cyfrif Refferendwm (RCOs) ym Mhrydain.[2] O dan y darpariaethau hyn, gall y Comisiwn:

- bennu a chyhoeddi safonau perfformiad ar gyfer swyddogion etholiadol perthnasol ym Mhrydain (Swyddogion Cofrestru Etholiadol, ROs ac RCOs)
- roi cyfarwyddyd i swyddogion perthnasol ddarparu i'r Comisiwn adroddiadau ynghylch eu perfformiad yn erbyn y safonau a gyhoeddwyd
- cyhoeddi ei asesiad perfformiad gan swyddogion perthnasol yn erbyn y safonau a gyhoeddwyd

1.3 Yn Awst 2009 cyhoeddasom Gyfarwyddyd i Adrodd o dan PPERA, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddarparu adroddiad i ni ar berfformiad yn erbyn y safonau. Dyma'r ail flwyddyn y rhoddwyd cyfarwyddyd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol adrodd yn erbyn y safonau hyn. Dylid cyflwyno cofnodion erbyn 11 Rhagfyr 2009.

[1] Nid yw'r darpariaethau safonau perfformiad a gyflwynwyd gan yr EAA yn berthnasol i etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban.
[2] Adrannau 9A a 9B, PPERA, fel y'u diwygiwyd gan Adran 67, EAA. Gweler Adran 5 am y testun deddfwriaethol llawn.

2 Datblygiad Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Datblygiad safonau

2.1 Ymgynghorodd y Comisiwn ar set ddrafft o safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol (Swyddogion Cofrestru Etholiadol) rhwng Mawrth a Mehefin 2008 a derbyniwyd 57 o ymatebion. Hefyd trafodasom gynnwys y safonau mewn nifer o seminarau ar draws y wlad ac un-i-un gyda nifer o weinyddwyr etholiadol. Cyhoeddasom ymateb i'r ymarferiad ymgynghori, gan amlinellu'r sylwadau a dderbyniasom ac egluro'r rhesymau dros unrhyw newidiadau i'r safonau.

2.2 Yn Hydref 2008 rhoddodd y Comisiwn gyfarwyddyd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar draws Prydain gwblhau a dychwelyd hunanasesiad yn erbyn y 10 safon. Y terfyn amser ar gyfer dychwelyd y wybodaeth oedd 16 Ionawr 2009. Derbyniasom wybodaeth gan y cyfan o'r 404 o Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain, yn cynrychioli graddfa ddychwelyd o 100%. Cyhoeddasom ein dadansoddiad cyntaf o berfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn Ebrill 2009,[3] sydd ar gael ar ein gwefan ar www.electoralcommission.org.uk/performance-standards ynghyd ag offeryn gwe sy'n rhoi dadansoddiad o berfformiad unigol Swyddogion Cofrestru Etholiadol, ac sy'n caniatáu cymhariaeth rhwng gwahanol awdurdodau ar draws Prydain.

Cysylltiadau â chyfarwyddyd a chefnogaeth gan y Comisiwn

2.3 Mae gan y Comisiwn bwerau statudol i ddarparu cyngor a chymorth i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar ddehongli a gweinyddu cyfraith etholiadol, ac ar hybu cyfranogiad etholiadol. Ar hyn o bryd rydym yn darparu amrediad o wasanaethau cyfarwyddyd a chynghori, digwyddiadau briffio, ymchwil ac offer ymarferol i'w defnyddio gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Dosberthir y rhain drwy ein swyddfeydd datganoledig a rhanbarthol ar draws Prydain yn ogystal â thrwy ein pencadlys yn Llundain.

2.4 Bwriedir i'r safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol adlewyrchu a chefnogi ein cyfarwyddyd. Yn enwedig, maent yn adlewyrchu'r meysydd blaenoriaeth hynny ble y credwn y byddai risg sylweddol i hyder yn effeithiolrwydd y broses etholiadol pe na fyddai'r safonau'n cael eu cwrdd.

2.5 Amlygodd y cylch cyntaf o adrodd ar berfformiad Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn erbyn y safonau'r meysydd hynny ble bo angen gwelliannau, yn benodol yn gysylltiedig â chywirdeb, cyfranogiad a chynllunio. Defnyddiasom

[3] *Performance standards for Electoral Registration Officers in Great Britain: First analysis of Electoral Registration Officers' performance* (Comisiwn Etholiadol, 2005) ar gael ar www.electoralcommission.org.uk/performance-standards.

y canfyddiadau hyn i ddynodi cyfleoedd i ddarparu rhagor o gefnogaeth a chymorth.

3 Y fframwaith safonau perfformiad

3.1 Mae'r fframwaith safonau perfformiad yn amlinellu'r hyn sydd angen ei gyflawni er mwyn cefnogi proses gofrestru etholiadol effeithiol, ac i ddarparu proses wrthrychol ar gyfer asesu perfformiad yn erbyn safonau y cytunir yn gyffredinol arnynt.

Amcanion ar gyfer safonau perfformiad

3.2 Mae'r safonau'n amlinellu'r gofynion allweddol i gefnogi cyflenwad effeithiol dyletswydd statudol y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae gan y fframwaith safonau perfformiad, yn cynnwys y broses adrodd ac asesiad, nifer o bwrpasau cysylltiedig:

- **atebolrwydd cyhoeddus** – yn darparu sicrwydd bod proses gofrestru etholiadol effeithiol yn ei lle i gefnogi cofrestrau etholiadol cyflawn a manwl gywir
- **meincnodi gwasanaeth** – yn galluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol unigol i gymharu perfformiad yn erbyn eu cyfoedion, dynodi a rhannu arfer dda a dynodi cyfleoedd i wella dros amser
- **datblygu a gwerthuso polisi** – yn darparu tystiolaeth i wneuthurwyr polisi i gefnogi gwelliannau yn y ddeddfwriaeth ac ariannu ar gyfer cofrestru etholiadol

3.3 Rydym yn disgwyl y bydd y fframwaith yn parhau i gael ei ddefnyddio gan amrediad o unigolion a grwpiau, yn cynnwys:

- **etholwyr** – y rhai sy'n gymwys i bleidleisio, ac felly sy'n dibynnu ar y broses gofrestru etholiadol i allu gwneud hynny
- **Swyddogion Cofrestru Etholiadol** – yn gyfrifol am gyflenwi'r swyddogaethau cofrestru etholiadol statudol. Mae'r safonau yn gymorth i sicrhau fod cyflenwi swyddogaethau cofrestru etholiadol yn cael eu cynllunio a'u rheoli'n dda trwy wneud yn glir y dull disgwyliedig yng nghyswllt nifer o feysydd allweddol.
- **cynghorwyr** – yn gyfrifol am benodi Swyddogion Cofrestru Etholiadol, ac yn darparu adnoddau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyflawni eu dyletswyddau statudol. Gall y safonau fframwaith helpu darparu sicrwydd bod swyddogaethau cofrestru etholiadol yn cael eu cyflenwi'n effeithiol a rhoi gwerth am arian.
- **gweinyddwyr etholiadol** – gweinyddu'r broses gofrestru etholiadol ar ran y Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Mae'r safonau'n cefnogi datblygiad cynlluniau effeithiol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau cofrestru etholiadol.
- **llywodraethau a gwneuthurwyr polisi** – yn gyfrifol am sicrhau bod strwythur cyfreithiol effeithiol yn ei le i gefnogi cyflenwi swyddogaethau cofrestru etholiadol. Gall y safonau fframwaith helpu i asesu perfformiad y fframwaith cyfreithiol, ac i ddynodi meysydd ble o bosib bod angen i welliannau perfformiad gael eu cefnogi gan newid deddfwriaethol neu ragor o gyfarwyddyd a chyngor.

- **cynrychiolwyr etholedig/aelodau deddfwrfeydd** – yn gyfrifol am graffu polisi llywodraeth a chynigion deddfwriaethol. Gall y safonau fframwaith helpu rhoi hyder yn y broses gofrestru etholiadol. Gallant hefyd helpu cefnogi craffu cynigion polisi neu ddeddfwriaethol.

3.4 Mae'r fframwaith safonau perfformiad yn ffocysu yn y lle cyntaf ar ddynodi isafswm safonau perfformiad cyson y cytunir arnynt ar gyfer y Swyddogion Cofrestru Etholiadol. Fodd bynnag, rydym hefyd yn amcanu at gefnogi gwelliannau tu draw i'r isafswm safon ble bynnag bo'n bosib. Mae'r fframwaith yn helpu i amlygu ble y gall gwaith ychwanegol fod yn ofynnol er mwyn cefnogi'r prosesau cofrestru etholiadol allweddol. Fodd bynnag, nid oes gan y Comisiwn bwerau cyfreithiol i gyfarwyddo'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth gynnal eu dyletswyddau statudol, ac mae'r cyfrifoldeb am gyflenwi unrhyw welliannau yn aros gyda'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol unigol.

4 Y broses hunanasesiad

Cwblhau'r safonau perfformiad

4.1 Mae'r adran hon yn egluro mewn mwy o fanylder y broses hunanasesiad i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac mae'n cynnwys nodiadau esboniadol ar gwblhau'r asesiad yn erbyn y 10 safon perfformiad.

4.2 Mae gan y Comisiwn Etholiadol bŵer cyfreithiol i gyfarwyddo'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ddarparu adroddiad ar eu perfformiad yn erbyn y safonau a gyhoeddwyd (gweler Adran 5 am fanylion llawn a'r ddeddfwriaeth). Mae'r broses hunanasesiad yn sicrhau bod y safonau'n adlewyrchu gwaith, gwybodaeth a phrofiad y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Rydym yn gwerthfawrogi y gall llawer o'r gwaith gweithredol a dyletswyddau bob dydd gael eu gwneud gan staff arall. Fodd bynnag, rhaid cofio bod y cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyfer cyflenwi'r swyddogaeth cofrestru etholiadol yn aros gyda'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

4.3 Amcan y broses hunanasesiad yw cefnogi adolygiad syml, ond cynhwysfawr a systematig, o ddyletswyddau statudol Swyddog Cofrestru Etholiadol. Dylai'r canlyniad fod yn asesiad gonest sy'n cydnabod meysydd ble mae'r perfformiad nid yn unig ar y safon benodedig neu uwchlaw honno, ond hefyd ble mae o bosib lle i wella.

4.4 Mae sail yr hunanasesiad yn deillio o bedwar cwestiwn allweddol oddi mewn i'r fframwaith safonau perfformiad.

1. A oes gan y Swyddogion Cofrestru Etholiadol y cynlluniau a phrosesau priodol yn eu lle i foddhau'r diffiniad o'r safonau?
2. Pa mor dda mae'r cynlluniau a phrosesau hyn yn cwrdd ag anghenion a diddordebau rhanddeiliaid allweddol?
3. A yw'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn adolygu a gwerthuso'r cynlluniau a phrosesau sydd ganddynt, gan wneud newidiadau neu welliannau ble bo angen?
4. Pa mor dda yw'r gefnogaeth i'r cynlluniau a rhaglenni?

4.5 Er y dylai'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddefnyddio'r pedwar cwestiwn fel sail i'w dull, dylid dehongli'r cwestiynau'n hyblyg yng ngoleuni amcanion penodol y Swyddog Cofrestru Etholiadol unigol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ffactorau cyd-destunol. O dan bob safon mae blwch i'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gefnogi eu hasesiad ymhellach.

4.6 Bydd natur yr hunanasesiad yn amrywio yn ôl y meini prawf ym mhob safon. Bydd angen i'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddangos dealltwriaeth o'r hyn maent yn wneud yn dda, beth sydd angen ei wella, a sut y gellir monitro, cyflawni a gwerthuso'r gwelliant hwn dros amser. Y prawf allweddol o'r adroddiad hunanasesiad dilynol yw ei allu i ddangos sut y cynhelir ansawdd uchel a sicrhau gwelliant. Mae adroddiad hunanasesiad blynyddol yn rhoi cyfle i werthuso'r hyn a wneir yn dda a'r hyn sydd angen ei wella.

4.7 Dosberthir y safonau perfformiad yn bedwar maes pwnc, yn cynrychioli'r meysydd pwysicaf y dylai'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol ganolbwyntio arnynt i gadw a chynnal cofrestr etholiad gyflawn a chywir. Mae'r maes pwnc allweddol cyntaf (Cyflawnrwydd a chywirdeb cofnodion cofrestru etholiadol) yn cael ei gefnogi gan y safonau yn y tri maes pwnc arall, a restrir yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain

Maes pwnc	Safonau perfformiad	
Cyflawnrwydd a chywirdeb cofnodion cofrestru etholiadol	1.	Defnyddio ffynonellau gwybodaeth i gadarnhau cofnodion ar y gofrestr etholwyr a dynodi etholwyr newydd posib
	2.	Cynnal y gronfa ddata eiddo
	3.	Ymholiadau tŷ-i-dŷ
Cywirdeb y broses gofrestru	4.	Cynnal cywirdeb cofrestru a cheisiadau pleidlais absennol
	5.	Cyflenwad a diogelwch y gofrestr a rhestrau pleidleiswyr absennol
Annog cyfranogiad yn y broses gofrestru	6.	Strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus
	7.	Gweithio gyda phartneriaid
	8.	Hygyrchedd a chyfathrebu gwybodaeth
Cynllunio a threfniadaeth	9.	Cynllunio ar gyfer cofrestru parhaus a'r canfasiad blynyddol
	10.	Hyfforddiant

4.8 Gofynnir i Swyddogion Cofrestru Etholiadol asesu eu hunain yn erbyn bob un o'r 10 safon yn unol â thri chategori gwahanol: 'Dim yn cwrdd â'r safon ar hyn o bryd', 'Safon perfformiad', ac 'Uwchlaw'r safon perfformiad'. Mae'r asesiadau i'w gwneud yn unol â'r cyfarwyddyd hwn, sy'n amlinellu'r lefel perfformiad a ddisgwyliwn er mwyn boddhau'r meini prawf penodol ar bob lefel.

Dylai'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol asesu eu hunain yn erbyn y 10 safon trwy roi tic yn y blwch ar gyfer bob safon sy'n cyd-fynd â'u lefel bresennol o berfformiad. Rhaid cwrdd â'r holl ofynion ar y lefel benodol a ddewisir gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Ble bo Swyddog Cofrestru Etholiadol yn teimlo bod eu perfformiad yn disgyn rhwng dwy safon, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol farcio eu hunain ar y lefel isaf a defnyddio'r blychau testun rhydd i egluro'r asesiad maent wedi ei ddewis.

4.9 Ar gyfer rhai o'r safonau mae dwy lefel o berfformiad yn yr adran 'Dim yn cwrdd â'r safon ar hyn o bryd', ac yn un achos, dwy lefel o berfformiad yn yr adran 'Uwchlaw'r safon'. O fewn yr adran 'Dim yn cwrdd â'r safon ar hyn o bryd', mae'r lefel isaf yn awgrymu nad yw'r swyddog yn cynnal unrhyw weithgareddau tuag at gwrdd â'r safon, tra bod yr ail lefel yn awgrymu fod rhai o'r gweithgareddau a ddisgwyliwn yn cael eu cynnal, ond nad ydynt yn ddigonol i gwrdd â'r safon.

4.10 Mae'r adrannau o fewn pob safon yn gronnus. Felly, os yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn asesu eu hunain yn erbyn 'Uwchlaw'r safon' rydym yn disgwyl iddynt hefyd gynnal yr holl fesurau a restrir yn y 'Safon perfformiad'.

4.11 Dylid dychwelyd y ffurflen hunanasesiad i'r swyddfa Comisiwn Etholiadol ddatganoledig berthnasol neu'r swyddfa ranbarthol berthnasol yn Lloegr erbyn 11 Rhagfyr 2009. Unwaith bo'r ffurflen wedi ei dychwelyd a'r cofnodion wedi eu coladu, byddwn yn cysylltu â sampl hap o Swyddogion Cofrestru Etholiadol er mwyn trefnu cadarnhad o'r dystiolaeth. Bydd unrhyw weithgareddau cadarnhad a gynhelir gennym yn edrych ar y dystiolaeth a ddelir gan y Swyddogion Cofrestru Etholiadol, nid yn unig er mwyn dangos bod eu hunanasesiad yn gywir, ond hefyd i edrych ar fentrau ac ymarferion y gellir eu rhannu, gyda'r bwriad o wella perfformiad yn ehangach. Ymhellach, bydd dadansoddiad trwyadl o'r wybodaeth yn ein galluogi i ddynodi gweithgareddau cyffredinol a phenodol sydd efallai eu hangen i gefnogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol sy'n perfformio o dan y safon ofynnol.

Nid yw'n ofynnol i'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol anfon unrhyw dystiolaeth wrth ddychwelyd eu ffurflen hunanasesiad. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn yn gofyn am weld tystiolaeth oddi wrth sampl o Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar ddyddiad diweddarach yn ystod y broses gadarnhau rhwng Ionawr a Chwefror 2010.

4.12 Ar ôl i ni dderbyn yr holl ffurflenni hunanasesiad a chadarnhau'r sampl a ddetholir, byddwn yn cyhoeddi manylion am bob asesiad Swyddog Cofrestru Etholiadol o'u perfformiad yn erbyn y safonau ar ein gwefan ar www.electoralcommission.org.uk/performance-standards.

4.13 Byddwn hefyd yn ymgymryd â dadansoddiad o'r cofnodion, a fydd yn amcanu at adeiladu darlun cenedlaethol o berfformiad. Bydd hyn hefyd yn dynodi unrhyw dueddiadau neu anghysonderau, yn ogystal â meysydd ble efallai bod tystiolaeth o arfer dda y gellir ei rhannu a'i hystyried ymhellach. Yn ychwanegol, bydd y dadansoddiad yn cynorthwyo i ddynodi meysydd ble mae angen i ni ddarparu rhagor o gymorth neu gyfarwyddyd. Ymhellach, bydd yn chwarae rôl mewn adolygu'r safonau a sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a phriodol.

4.14 Mae'r tudalennau canlynol yn cynnwys y safonau perfformiad a gyhoeddwyd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain a nodiadau esboniadol i gynorthwyo mewn cwblhau'r ffurflen hunanasesiad. Rydym wedi cyfeirio at rannau perthnasol y Cyfarwyddyd y Comisiwn i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ble bo'n briodol.

Cyflawnrwydd a chywirdeb cofnodion cofrestru etholiadol

Safon perfformiad 1: Defnyddio ffynonellau gwybodaeth i gadarnhau cofnodion ar y gofrestr etholwyr a dynodi etholwyr newydd posib **Pwnc**: Cyflawnrwydd a chywirdeb cofnodion cofrestru etholiadol			**Cefnogi themâu gweledigaeth**: **Cywirdeb** – proses ddiogel ar gyfer cofrestru a phleidleisio
Mae'r safon hon yn anelu at sicrhau bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio ffynonellau priodol o wybodaeth i gadarnhau cofnodion ar y gofrestr etholwyr a dynodi etholwyr newydd posib.			
Perfformiad yn erbyn y safon		**Asesiad**	**Tystiolaeth i gefnogi'r asesiad**
Dim yn cwrdd â'r safon perfformiad ar hyn o bryd	1. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn dibynnu'n llwyr ar y ffurflenni canfasiad blynyddol a'r ceisiadau cofrestru parhaus i gynnal y gofrestr etholwyr, ac nid ydynt yn defnyddio unrhyw ffynonellau eraill o wybodaeth i wirio cofnodion.		
	2. Dim ond yn ystod cyfnod y canfasiad blynyddol yn unig mae'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio'r cofnodion sydd ganddynt y pŵer i'w harchwilio i wirio cofnodion ar y gofrestr etholwyr. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gwneud yn siŵr fod etholwyr yr adroddir eu bod wedi symud i ffwrdd neu wedi marw'n cael eu tynnu i ffwrdd oddi ar y gofrestr.		• manylion ynghylch pa gofnodion a wiriwyd
Safon perfformiad	3. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn rhagweithiol yn dynodi a defnyddio'r cofnodion mae ganddynt hawl i'w harchwilio drwy gydol y flwyddyn ac yn ystod cyfnod y canfasiad blynyddol, i gadarnhau a dilysu data sy'n cael ei gadw ar y gofrestr etholiadol.		• manylion ynghylch pa gofnodion a wiriwyd a phryd
Uwchlaw'r	4. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn defnyddio dull		• manylion ynghylch pa gofnodion a

safon perfformiad	rhagweithiol drwy gydol y flwyddyn i ddod o hyd ac i gysylltu ag etholwyr posib sydd efallai wedi symud i mewn neu o fewn ardal yr awdurdod lleol, er enghraifft drwy ddefnyddio cofnodion treth y cyngor i ddod o hyd i breswylwyr sydd newydd symud i mewn i eiddo.		wiriwyd a phryd • manylion ynghylch pa gyswllt a wneir a pha weithredu yr ymgymerir ag ef

Safon perfformiad 1: Defnyddio ffynonellau gwybodaeth i gadarnhau cofnodion ar y gofrestr etholwyr a dynodi etholwyr newydd posib

Cwrdd â'r safon perfformiad (lefel 3)

4.15 Er mwyn cwrdd â'r 'Safon perfformiad', dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol allu darparu manylion sy'n amlinellu'r cofnodion a ddefnyddient, gydol y flwyddyn, i gadarnhau a dilysu'r cofnodion ar y gofrestr.

4.16 Mae'r cofnodion sydd gan y Swyddogion Cofrestru Etholiadol hawl i'w harchwilio er mwyn cadarnhau a dilysu'r cofnodion ar y gofrestr etholwyr yn cynnwys:

- y cofnodion a gynhyrchir yn achlysurol gan gofrestrydd genedigaethau a marwolaethau i'r ardal[4]
- cofnodion treth cyngor
- cofnodion tai
- y fath gofnodion eraill o eiddo'r cyngor (yn cynnwys trydydd partïon yn darparu swyddogaeth i'r cyngor) a all eu cynorthwyo i gynnal eu swyddogaeth gofrestru

Mae *Rhan E – Gwella cyflawnrwydd a chywirdeb* (Adran 2) yn rhoi rhagor o wybodaeth ar y ffynonellau gwybodaeth ar gyfer cofrestru etholiadol.

Uwchlaw'r safon perfformiad (lefel 4)

4.17 Er mwyn bod 'Uwchlaw'r safon perfformiad', yn ychwanegol at yr uchod, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol allu dangos eu bod hefyd wedi cymryd camau i ddynodi a chysylltu'n rhagweithiol ag etholwyr newydd posib. Dylent fedru darparu manylion am y cyswllt a wnaethpwyd gyda phreswylwyr newydd sy'n cyrraedd, ac yn symud oddi mewn, i'r ardal awdurdod lleol a'r weithred a wnaethpwyd i'w cofrestru.

4.18 Gallai'r ffynonellau gwybodaeth mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn eu defnyddio gydol y flwyddyn i'w cynorthwyo i ddynodi a chysylltu ag etholwyr posib gynnwys:

- cartrefi preswyl/gofal/nyrsio
- neuaddau preswyl addysgol
- landlordiaid eiddo preifat mewn eiddo amlfeddiannaeth (Tai Amlfeddiannaeth – HMOs)
- llochesi a hosteli i'r rhai sydd heb gartref parhaol
- asiantau tai ac asiantau gosod tai

[4] Yn yr Alban, cofrestrydd genedigaethau, marwolaethau a phriodasau yw.

4.19 Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd gydgysylltu ag adrannau treth cyngor i sicrhau bod ffurflenni cofrestru yn cael eu hanfon allan i breswylwyr sydd newydd symud i anheddau ac/neu eu cynnwys mewn pecynnau symudwyr tai. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wneud ymgais i ddilyn i fyny'r fath weithredu, os oes angen, i sicrhau bod cofnodion o'r anheddau hyn.

Safon perfformiad 2: Cynnal y gronfa ddata eiddo **Pwnc:** Cyflawnrwydd a chywirdeb cofnodion cofrestru etholiadol			**Cefnogi themâu gweledigaeth**: **Cywirdeb** – proses ddiogel ar gyfer cofrestru a phleidleisio
Mae'r safon hon yn anelu at sicrhau bod y Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio'r holl ffynonellau addas o wybodaeth sydd ar gael i wneud yn siŵr fod yr holl eiddo perthnasol yn cael eu cynnwys ar y gronfa ddata eiddo.			
Perfformiad yn erbyn y safon		**Asesiad**	**Tystiolaeth i gefnogi'r asesiad**
Dim yn cwrdd â'r safon perfformiad ar hyn o bryd	1. Nid yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cymryd unrhyw gamau i gynnal cronfa ddata eiddo manwl gywir.		
	2. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn diweddaru'r gronfa ddata eiddo ar sail flynyddol yn unig, yn dilyn y canfasiad blynyddol.		• manylion ynghylch pryd y diweddarwyd y system
Safon perfformiad	3. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynnal y gronfa ddata eiddo ar sail barhaus gydol y flwyddyn, gan ddefnyddio cofnodion sydd ar gael, yn cynnwys treth cyngor, rheolaeth gynllunio ac adeiladu, a Local Land and Property Gazetteer (LLPG)/Corporate Address Gazetteer (CAG) yr awdurdod.		• manylion ynghylch pa gofnodion sydd wedi'u gwirio a pha mor aml
Uwchlaw'r safon perfformiad	4. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd yn defnyddio ffynonellau allanol perthnasol, fel y Post Brenhinol ac/neu'r Gofrestrfa Dir/ Cofrestri'r Alban, ac yn cynnal gweithgareddau eraill i ddiweddaru'r gronfa ddata eiddo.		• manylion ynghylch pa gofnodion sydd wedi'u gwirio a pha mor aml, neu ymgais i wirio cofnodion • manylion ynghylch y cyswllt a wnaethpwyd â ffynonellau allanol

Safon perfformiad 2: Cynnal y gronfa ddata eiddo

Cwrdd â'r safon perfformiad (lefel 3)

4.20 Er mwyn cwrdd â'r 'Safon perfformiad', dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn defnyddio'r cofnodion sydd ar gael iddynt, ar sail barhaus gydol y flwyddyn, i gynnal y gronfa ddata eiddo. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fedru darparu manylion sy'n amlinellu pa gofnodion y maent yn eu defnyddio a phryd.

4.21 Mae'r cofnodion y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn dymuno eu defnyddio o bosib i gynnal y gronfa ddata eiddo yn cynnwys:

- treth cyngor
- rheolaeth gynllunio ac adeiladu
- Local Land and Property Gazetteer (LLPG)/ Corporate Address Gazetteer (CAG)

Mae *Rhan E – Gwella cyflawnrwydd a chywirdeb* (Adran 2) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y ffynonellau gwybodaeth ar gyfer cofrestru etholiadol a sut y gallent fod yn ddefnyddiol.

Uwchlaw'r safon perfformiad (lefel 4)

4.22 Er mwyn bod 'Uwchlaw'r safon perfformiad', yn ychwanegol at yr uchod, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd fedru darparu manylion ynglŷn â pha ffynonellau allanol maent wedi eu defnyddio, neu wedi ymgeisio'n rhagweithiol i'w defnyddio, a pha mor aml, yn ogystal â manylion am weithgareddau eraill yr ymgymerwyd â hwy i ddiweddaru'r gronfa ddata eiddo.

4.23 Mae ffynonellau allanol eraill o wybodaeth y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol o bosib eisiau eu defnyddio'n cynnwys:

- Post Brenhinol – yn medru darparu gwybodaeth am godau post. Mae diweddariadau codau post yn cael eu cyhoeddi ar sail flynyddol a gellir eu lawrlwytho am ddim o www.royalmail.com/postcodeupdates. Gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd gael codau post ar gyfer cyfeiriadau penodol, neu gyfeiriadau ar gyfer codau post, o www.royalmail.com.
- Llythyrau a ddychwelwyd – gall hyn fod yn arwydd nad oes neb yn byw yn yr eiddo bellach, ac felly dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fonitro ar sail gyfredol unrhyw bost a ddychwelir i'r swyddfa oherwydd methiant i'w ddanfon.

4.24 Gall gweithgareddau eraill a ddefnyddir i gynnal y gronfa ddata gynnwys defnyddio canfaswyr i ddilysu'r gronfa ddata wrth wneud ymholiadau tŷ-i-dŷ. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau fod canfaswyr yn derbyn cyfarwyddiadau clir ynghylch cofnodi ac adrodd ar faterion sy'n ymwneud ag eiddo y maent yn eu dynodi, er enghraifft os yw adeilad wedi ei ddymchwel,

bod fflatiau wedi eu troi'n ôl yn dŷ, neu eiddo newydd wedi ei adeiladu. Pan fo cardiau pleidleisio yn cael eu danfon â llaw gan staff etholiadol, gellir defnyddio'r ymarferiad hwn hefyd fel gwiriad canol-blwyddyn ar y gronfa ddata.

Safon perfformiad 3: Ymholiadau tŷ-i-dŷ **Pwnc:** Cyflawnrwydd a chywirdeb cofnodion cofrestru etholiadol			**Cefnogi themâu gweledigaeth**: **Cywirdeb** – proses ddiogel ar gyfer cofrestru a phleidleisio
Mae'r safon hon yn anelu at sicrhau bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gwneud yr ymholiadau tŷ-i-dŷ angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr holl breswylwyr cymwys wedi eu cofrestru (Adran 9A and 10(5) o'r RPA 1983).			
Perfformiad yn erbyn y safon		**Asesiad**	**Tystiolaeth i gefnogi'r asesiad**
Dim yn cwrdd â'r safon perfformiad ar hyn o bryd	1. Nid oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol gynllun yn amlinellu pryd i gynnal ymholiadau tŷ-i-dŷ.		
	2. Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol gynllun ysgrifenedig yn amlinellu pryd i gynnal ymholiadau tŷ-i-dŷ ond nid yw wedi cwrdd â'r amcanion a ddynodir yn eu cynllun.		• cynllun ac amserlenni
Safon perfformiad	3. Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol gynllun ysgrifenedig cynhwysfawr sy'n sicrhau bod yr holl eiddo nad ydynt wedi ymateb i'r canfasiad blynyddol a, ble nad yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon fel arall bod etholwyr cymwys yn bresennol, yn destun i ymholiadau tŷ-i-dŷ ar o leiaf un neu fwy o achlysuron. Mae cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei fonitro, yn cynnwys gweithrediadau megis cofnodi'r cyswllt a wnaethpwyd gan y canfaswyr gyda'r preswylwyr.		• cynllun canfasio • cofnodion canlyniadau canfasio

Uwchlaw'r safon perfformiad	4. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi datblygu a rhoi yn ei le strategaeth benodol ar gyfer cynnal ymholiadau tŷ-i-dŷ. Dylai hon gynnwys: • dynodi pryd a sut y dylai ymholiadau tŷ-i-dŷ gael eu cynnal • ystyried unrhyw anghenion neu anawsterau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd neilltuol a darparu'n unol â hynny • monitro perfformiad canfaswyr • darparu ar gyfer cynnal ymweliadau personol gydol y flwyddyn er mwyn dynodi preswylwyr cymwys, ar y cyd â chynlluniau ar gyfer dynodi preswylwyr cymwys newydd posib		• strategaeth ganfasio

Safon perfformiad 3: Ymholiadau tŷ-i-dŷ

Cwrdd â'r safon perfformiad (lefel 3)

4.25 Er mwyn cwrdd â 'Safon perfformiad', mae'n ofynnol ar i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gael cynllun canfasio cynhwysfawr. Dylai pob cynllun ddogfennu:

- y meini prawf ynghylch pryd y dylid gwneud ymholiadau tŷ-i-dŷ
- y cynnydd yn erbyn y meini prawf a amlinellir ar dudalen 14, fel cofnodi cyswllt â phreswylwyr

4.26 Mae'n bwysig nodi nad oes raid i hwn fod yn gynllun ar wahân i'r cynllun sy'n ofynnol i gwrdd â Safon perfformiad 9: Cynllunio ar gyfer cofrestru parhaus a'r canfasiad blynyddol, cyn belled â bod y cynllun yn cwrdd â'r holl ofynion a amlinellir yn y safon. Dylai'r cynllun ddogfennu cyflenwad effeithiol y canfasiad blynyddol a bod yn ddigon clir a manwl fel y gellir ei ddilyn gan unrhyw unigolion a ddirprwyir i gynnal gwaith ar ran y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

4.27 Mae Adran 9A Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (RPA 1983) yn gosod dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gymryd pob cam yr ystyrient yn angenrheidiol i bwrpas casglu cofrestrau etholiadol cyflawn a chywir. Nid oes angen cymryd y camau a amlinellir yn Adran 9A, sy'n cynnwys gwneud ymholiadau tŷ-i-dŷ ar un neu fwy o achlysuron, mewn unrhyw drefn neilltuol. Fodd bynnag, os na chafwyd unrhyw ymateb a bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ystyried bod gwybodaeth annigonol wedi'i derbyn i'w galluogi i benderfynu p'un a ddylid cofrestru unigolyn/unigolion mewn cyfeiriad penodol, yna dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wneud y fath ymholiadau tŷ-i-dŷ sy'n angenrheidiol i gyflawni eu dyletswydd o dan Adran 9A yr RPA 1983.

4.28 Mewn achosion unigol penodol, efallai bod amgylchiadau a allai arwain at i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol beidio canfasio cyfeiriad penodol, er enghraifft, mewn achos eithafol ble, oherwydd diogelwch personol, mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn tybio nad yw'n ddiogel anfon canfasiwr personol i gyfeiriad neilltuol. Fodd bynnag, wrth gyrraedd y fath benderfyniad, byddai angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddangos eu bod wedi cynnal asesiad priodol o'r amgylchiadau a bod pob opsiwn wedi ei ystyried. Rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau y rhoddir adnoddau priodol i alluogi cynnal ymholiadau tŷ-i-dŷ er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau statudol o dan Adran 9A yr RPA 1983 ac i gwrdd â'r safon.

Mae *Rhan C – Y canfasiad blynyddol* (Adrannau 1, 2, 3 a 6) yn rhoi gwybodaeth am gynllunio ar gyfer a chynnal y canfasiad blynyddol. Mae adnoddau eraill i gefnogi cyflenwi'r canfasiad blynyddol, yn cynnwys templed cynllun canfasio, ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan ar: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/electoral-registration/managing-electoral-registration-services Mae'r holl ddeunydd cefnogi cofrestru ar gael i'w lawrlwytho mewn fformat Microsoft Word er mwyn galluogi i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei addasu i'w hamgylchiadau lleol eu hunain.

Uwchlaw'r safon perfformiad (lefel 4)

4.29 Er mwyn bod 'Uwchlaw'r safon perfformiad', yn ychwanegol at yr uchod, dylai'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd fod wedi nodi:

- Pryd a sut y dylid cynnal ymholiadau tŷ-i-dŷ, er enghraifft:
  - pan nad oes ymatebion i geisiadau am wybodaeth
  - pan fo'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi derbyn gwybodaeth bod y preswylydd angen cymorth personol neu
  - pan fo angen cadarnhau gwybodaeth ar breswylwyr mewn eiddo
- Ystyriaeth o unrhyw anghenion neu anawsterau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd penodol. Gall hyn gynnwys dynodi unrhyw ardaloedd sy'n fwy heriol i'w canfasio ac unrhyw hyfforddiant perthnasol ychwanegol i staff sy'n gweithio yn yr ardaloedd hynny.
- Sut bydd perfformiad canfaswyr yn cael ei fonitro. Er enghraifft, cymharu graddfeydd ymateb ar gyfer cylchdaith pob canfasiwr yn erbyn cofnodion y flwyddyn flaenorol ar ryw bwynt yn ystod y canfasiad, gan gymharu graddfeydd ymatebion 'cylchdeithiau' tebyg i'w gilydd, a thrwy gyfathrebu rheolaidd rhwng canfaswyr, goruchwylwyr a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.
- Eu dull o gynnal ymholiadau tŷ-i-dŷ gydol y flwyddyn mewn cysylltiad â dynodi preswylwyr cymwys.

Cywirdeb

Safon perfformiad 4: Cynnal cywirdeb cofrestru a cheisiadau pleidlais absennol **Pwnc:** Cywirdeb			**Cefnogi themâu gweledigaeth**: **Cywirdeb** – proses ddiogel ar gyfer cofrestru a phleidleisio
Mae'r safon hon yn anelu at sicrhau bod gan y Swyddogion Cofrestru Etholiadol broses yn ei lle i ddynodi unrhyw batrymau o weithgaredd a allai roi arwydd o gamymddygiad etholiadol.			
Perfformiad yn erbyn y safon		**Asesiad**	**Tystiolaeth i gefnogi'r asesiad**
Dim yn cwrdd â'r safon perfformiad ar hyn o bryd	1. Nid yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynnal unrhyw wiriadau i sicrhau cywirdeb cofrestru a cheisiadau pleidlais absennol.		
	2. Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol system anffurfiol yn ei lle i wirio cywirdeb cofrestru a cheisiadau pleidlais absennol ond nid yw'n dogfennu'r rhain.		
Safon perfformiad	3. Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol gynllun ysgrifenedig cynhwysfawr sy'n amlinellu pa gamau sydd i'w cymryd i ddelio â phryderon ynghylch cofrestru neu geisiadau pleidlais absennol penodol. Cyfeirir cofrestru a cheisiadau pleidlais absennol amheus sy'n cwrdd â'r meini prawf a ddynodir yn y cynllun at yr heddlu lleol/ Pwynt Cyswllt Unigol (SPOC), y mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol gysylltiadau priodol â hwy. Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ei le nifer trothwy o geisiadau pleidlais absennol a gyfeirir at unrhyw un cyfeiriad. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cadw'r ffurflenni cofrestru am hyd oes y gofrestr a chedwir y ceisiadau pleidlais absennol gwreiddiol hyd nes bo'r cais wedi ei ddiddymu, neu fod ffurflen newydd wedi dod i gymryd ei lle.		• cynllun ysgrifenedig • manylion ynghylch yr hyn yw'r trothwy ar gyfer y nifer o geisiadau pleidlais absennol a gyfeirir at unrhyw un cyfeiriad

Uwchlaw'r safon perfformiad	4.	Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi cynnal asesiad risg ar gyfer dynodi a delio â chofrestru a cheisiadau pleidlais absennol sydd o bosib yn achosi pryder, yn enwedig ceisiadau o eiddo amlfeddiannaeth, y rhai sy'n gofyn am hepgoriad llofnodion i bleidleisiau absennol, ac aml-geisiadau am ailgyfeirio pleidleisiau absennol i un cyfeiriad unigol. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cydnabod yr holl geisiadau cofrestru wrth dderbyn y cais, nid wrth roi neu wrthod.		• cynllun ysgrifenedig • manylion ynghylch yr hyn yw'r trothwy ar gyfer y nifer o geisiadau pleidlais absennol a gyfeirir at unrhyw un cyfeiriad. • dogfennaeth asesiad risg
	5.	Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gwerthuso'n barhaus yr asesiad risg ar gyfer dynodi a delio â chofrestru a cheisiadau pleidlais absennol sydd o bosib yn achosi pryder. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ymgysylltu â staff mewn gwasanaethau eraill y cyngor i gynnal gwiriadau a chynnig cyngor i staff sefydliadau aml-etholwyr megis landlordiaid, wardeiniaid, staff gofal a gweinyddwyr llety eraill ar y broses gofrestru a phleidleisio absennol. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynnal gwiriadau ar y llofnodion a dyddiadau geni a ddarperir ar sampl o geisiadau pleidlais absennol yn erbyn unrhyw lofnod neu ddyddiad geni arall maent yn ei ddal neu sydd ganddynt hawl i'w archwilio fel ffurflenni cais cofrestru parhaus.		• dogfennaeth asesiad risg • cynllun ysgrifenedig • manylion ynghylch yr hyn yw'r trothwy ar gyfer y nifer o geisiadau pleidlais absennol a gyfeirir at unrhyw un cyfeiriad • manylion ynghylch pwy mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cysylltu â hwy a pha mor aml a beth a wneir • manylion am sut mae'r sampl o geisiadau pleidlais absennol wedi cael ei dyfeisio • manylion am ganfyddiadau gwiriadau

Safon perfformiad 4: Cynnal cywirdeb cofrestru a cheisiadau pleidlais absennol

Diffiniad o gamymddygiad etholiadol

4.30 Gellir diffinio camymddygiad etholiadol i gynnwys gweithrediadau neu ymddygiad sy'n groes i ddeddfwriaeth etholiadol neu ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i'r broses gofrestru etholiadol.

4.31 Mae'r RPA 1983 yn diffinio'r mwyafrif o droseddau cofrestru etholiadol a cheisiadau pleidleisio post. Gall deddfwriaeth arall, fel un yn ymwneud â thwyll a gwneud datganiadau ffug, neu ddarpariaethau cyfraith gyffredin, hefyd fod yn berthnasol.

Cwrdd â'r safon perfformiad (lefel 3)

4.32 Er mwyn cwrdd â'r 'Safon perfformiad' dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol sicrhau bod cynllun ysgrifenedig yn ei le'n amlinellu'r camau sydd i'w cymryd i ddelio â phryderon ynghylch cofrestru neu geisiadau pleidlais absennol penodol.

4.33 Dylai'r cynllun ddynodi:

- Sbardunau a allai roi arwydd o anghysonderau posib. Gall sefyllfaoedd sbardun gynnwys:
  - pan fo nifer penodol o bleidleisiau post yn cael eu hailgyfeirio i gyfeiriadau neilltuol (dylid nodi yn y cynllun y manylion ynghylch yr hyn yw'r trothwy ar gyfer y nifer o geisiadau pleidlais absennol a gyfeirir at unrhyw un cyfeiriad)
  - pan fo gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol reswm i gwestiynu'r cofrestru neu'r ceisiadau pleidlais absennol a gyflwynir iddynt, fel y nifer o ffurflenni sydd wedi eu cwblhau gan yr un llaw, neu nifer fawr o ffurflenni sy'n dod o'r un eiddo.
- Y prosesau sydd i'w cynnal o fewn swyddfa'r Swyddog Cofrestru Etholiadol cyn adrodd ynghylch sefyllfaoedd i'r swyddog heddlu/ SPOC perthnasol. Er enghraifft, os oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw amheuon ynghylch cymhwyster unrhyw ymgeisydd, mae ganddynt y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw unigolyn ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â chymhwyster yr ymgeisydd hwnnw, sef ynghylch eu hoed, cenedl, preswyliad, a p'un a ydynt wedi eu hanghymwyso neu beidio. Efallai y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd eisiau defnyddio eu pŵer i archwilio cofnodion cyngor eraill fel rhan o'r broses o ystyried y cais. Hyd yn oed ar ôl i'r cofnodion gael eu gwneud ar y gofrestr, mae gan y Swyddogion Cofrestru Etholiadol bŵer i gynnal adolygiad o'r cofrestru a dylent wneud hynny os ydynt yn credu nad yw unigolyn â hawl i aros ar y gofrestr etholiadol.
- Pan fo cofrestru a cheisiadau pleidlais absennol amheus i gael eu cyfeirio at yr heddlu lleol/SPOC
- Polisi ar gyfer cadw ffurflenni cofrestru a phleidleisiau absennol yn dangos bod y ffurflenni cofrestru gwreiddiol yn cael eu cadw am hyd oes

y gofrestr a cheisiadau pleidlais absennol gwreiddiol yn cael eu cadw hyd nes bo'r cais wedi ei ddiddymu, neu fod ffurflen newydd wedi dod i gymryd ei lle. Mae cadw ffurflenni cofrestru a phleidlais absennol yn cynnwys delweddau wedi eu sganio neu gopïau papur. Mae'r Comisiwn, fodd bynnag, yn argymell cadw'r copïau papur gwreiddiol o geisiadau pan fo'n bosib. Byddai hyn yn galluogi i wiriadau gael eu cynnal pe byddai camgymeriadau clercyddol yn cael eu canfod neu archwiliad camymddygiad yn digwydd.



Mae *Rhan E – Gwella cyflawnrwydd a chywirdeb* (Adran 4) yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r hyn y dylid chwilio amdano a pha weithredu i'w gymryd pan fo gan Swyddog Cofrestru Etholiadol bryderon ynghylch cofrestru neu geisiadau pleidlais absennol penodol. Mae templed cynllun cywirdeb ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan ar: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/electoral-registration/managing-electoral-registration-services

Uwchlaw'r safon perfformiad (lefel 4)

4.34 Er mwyn bod 'Uwchlaw'r safon perfformiad', yn ychwanegol at yr uchod, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd allu darparu dogfennaeth asesiad risg. Dylai'r ddogfennaeth risg ofynnol gynnwys y risgiau cyffredinol sy'n gyffredin i bob ardal, fel ceisiadau am hepgoriad llofnodion i bleidleisiau absennol ac aml-geisiadau i ailgyfeirio pleidleisiau absennol i un cyfeiriad unigol. Dylai'r ddogfennaeth risg hefyd gynnwys y risgiau penodol a ddynodwyd yn ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol.

4.35 Rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd gydnabod yr holl geisiadau cofrestru wrth dderbyn y cais, nid yn unig wrth ei roi neu wrth ei wrthod.

Uwchlaw'r safon perfformiad (lefel 5)

4.36 Er mwyn bod ar lefel 5 'Uwchlaw'r safon perfformiad', yn ychwanegol at yr uchod, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd werthuso'n rheolaidd yr asesiad risg, bod yn abl i ddarparu manylion am y bobl y maent yn ymgysylltu â hwy ynglŷn â materion sy'n gysylltiedig â chywirdeb, cynnig cyngor i staff mewn sefydliadau aml-etholwyr a darparu manylion am wiriadau a gynhelir ar geisiadau pleidlais absennol.

4.37 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fonitro'r risgiau a amlinellir yn y ddogfennaeth asesiad risg sy'n ofynnol i gwrdd â lefel 4 'Uwchlaw'r safon perfformiad' ar sail gyfredol. Yna dylai'r ddogfennaeth asesiad risg gael ei diweddaru ble bo'n briodol.

4.38 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gadw cofnod o'r bobl maent yn ymgysylltu â hwy yng ngwasanaethau eraill y cyngor, fel treth cyngor, a chynnwys amlder y cyswllt a'r hyn a wnaethpwyd o ganlyniad.

4.39 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol allu darparu manylion am eu polisi o wirio samplau ceisiadau pleidlais absennol, er enghraifft, y cyfanswm o

lofnodion a dyddiadau geni a wiriwyd yn erbyn cofnodion, a chanlyniadau unrhyw wiriadau a wnaethpwyd. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd ddarparu manylion am y prosesau i'w dilyn yn benodol os nad yw llofnodion a dyddiadau geni'n cyd-fynd â'i gilydd.

Safon perfformiad 5: Cyflenwad a diogelwch y gofrestr a rhestrau pleidleiswyr absennol **Pwnc:** Cywirdeb			**Cefnogi themâu gweledigaeth**: **Cywirdeb** – proses ddiogel ar gyfer cofrestru a phleidleisio
Mae'r safon hon yn anelu at sicrhau unwaith y'i cyhoeddir, bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn sicrhau bod y gofrestr lawn ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus ac yn cyflenwi copïau o'r gofrestr a rhestrau pleidleiswyr absennol i'r rhai hynny a ragnodir mewn deddfwriaeth.			
Perfformiad yn erbyn y safon		**Asesiad**	**Tystiolaeth i gefnogi'r asesiad**
Dim yn cwrdd â'r safon perfformiad ar hyn o bryd	1. Nid yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi anfon gwybodaeth am gofrestru etholiadol i'r rhai hynny sydd â hawl i'w dderbyn.		
Safon perfformiad	2. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cyhoeddi a chyflenwi'r gofrestr etholiadol a rhestrau pleidleiswyr absennol i'r rhai sydd â hawl i'w derbyn, Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn darparu hyfforddiant neu gyfarwyddyd i'r staff hynny a fydd yn goruchwylio mynediad at y gofrestr yn ogystal â chyfarwyddyd i dderbynwyr y gofrestr ynglŷn â'r defnydd cywir o'u copi o'r gofrestr.		• manylion o ddyddiad cyhoeddi'r gofrestr • cynllun hyfforddi neu gopi o gyfarwyddyd yn cael ei roi i staff • copi o gyfarwyddyd yn cael ei roi i dderbynwyr
Uwchlaw'r safon perfformiad	3. Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol gofnod o'r weithdrefn gwyno o ran anfon a chyhoeddi'r gofrestr etholiadol. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cadw cofnod ar bapur o unrhyw gwynion a dderbyniwyd a'r gweithredu yn sgil hynny. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cofnodi'r holl drafodion o werthiannau a chyflenwad y gofrestr lawn a golygedig, ac yn cynnal cofnod cyfredol o'r sefydliadau hynny sydd â hawl i'w derbyn.		• cofnod o gwynion neu ymholiadau, a'r gweithredu a ddigwyddodd o ganlyniad • cofnod o drafodion a gwerthiannau

Safon perfformiad 5: Cyflenwad a diogelwch y gofrestr a rhestrau pleidleiswyr absennol

Cwrdd â'r safon perfformiad (lefel 2)

4.40 I gwrdd â'r 'Safon perfformiad' mae gofyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyhoeddi a chyflenwi'r gofrestr etholiadol a rhestrau pleidleiswyr absennol i'r rhai hynny sydd â hawl i'w derbyn, darparu copi o'r cyfarwyddyd ac/neu fanylion am yr hyfforddiant a roddir i staff sy'n goruchwylio mynediad at y gofrestr, a chopi o'r cyfarwyddyd a roddir i dderbynwyr y gofrestr.

Mae *Rhan H – Mynediad a chyflenwad* (Adran 4) yn rhestru'r rheiny y mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddyletswydd i gyflenwi copïau lawn o'r gofrestr etholiadol iddynt.

4.41 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddarparu hyfforddiant neu nodiadau cyfarwyddyd i'r staff hynny a fydd yn goruchwylio archwiliad o'r gofrestr, yn rhoi manylion ynghylch sut y dylid darparu'r mynediad hwnnw, a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r rheolau sy'n ymwneud â mynediad at y gofrestr. Dylid datblygu nodiadau cyfarwyddyd tebyg hefyd ar gyfer y rheiny sy'n prynu copïau o'r gofrestr etholwyr i'w hatgoffa o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r defnydd o'r gofrestr.

Mae *Rhan H – Mynediad a chyflenwad* (Adran 3) yn darparu gwybodaeth ar y broses o archwilio'r gofrestr.

Mae nodyn cyfarwyddyd ar gyfer y rheiny sy'n goruchwylio mynediad i'r gofrestr ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan yn:
www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/electoral-registration/managing-electoral-registration-services

Uwchlaw'r safon perfformiad (lefel 3)

4.42 I fod 'Uwchlaw'r safon perfformiad', dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol allu dangos bod ganddynt broses gwyno yn ei lle mewn perthynas â chyflenwad a chyhoeddiad y gofrestr etholiadol. Dylai cofnod cwynion roi manylion ynghylch unrhyw gwynion a dderbyniwyd, y gweithredu a wnaethpwyd yn sgil hynny, a'r dyddiadau pan ddigwyddodd hyn.

4.43 Mae'n bwysig nodi y bydd y broses gwyno a roddir yn ei lle gan y cyngor yn ddigon i gwrdd â'r meini prawf i'r lefel hon cyn belled ag y gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddangos bod y log a ddefnyddiwyd yn galluogi i'r broses a amlinellwyd uchod gael ei dilyn.

4.44 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd gynnal cofnod cyfredol o fanylion am y sefydliadau hynny sydd â hawl i dderbyn y gofrestr lawn a golygedig, a gallu darparu cofnod o bwy sydd wedi'u cyflenwi gyda chopïau o'r gofrestr a phryd, gan gynnwys unrhyw ffioedd a dalwyd.

Cyfranogaeth

Safon perfformiad 6: Strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus **Pwnc:** Cyfranogaeth			**Cefnogi themâu gweledigaeth**: **Ffocws defnyddiwr** – proses syml a hygyrch i ymgeiswyr ac etholwyr
Nod y safon hon yw sicrhau fod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn datblygu ac yn cynnal strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus briodol.			
Perfformiad yn erbyn y safon		**Asesiad**	**Tystiolaeth i gefnogi'r asesiad**
Dim yn cwrdd â'r safon perfformiad ar hyn o bryd	1. Nid oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol unrhyw strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus benodol yn ei lle.		
	2. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cadw strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus ar bapur, ac mae ef/hi yn dibynnu ar reoliadau rheoli heb eu strwythuro megis diweddariadau ar lafar neu ar bapur. Nid yw amcanion, risgiau ag adnoddau'n cael eu dogfennu'n ffurfiol.		
Safon perfformiad	3. Mae'r strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus yn cael ei dogfennu, gan gynnwys: • dod o hyd i gynulleidfaoedd targed • amcanion a mesurau llwyddiant wedi'u diffinio'n glir • risgiau – adnabod a lliniaru • adnoddau (ariannol a staffio) • cynllun gwerthuso sy'n cofnodi canlyniadau'r gweithgareddau a wnaethpwyd		• strategaeth ysgrifenedig • cynllun gwerthuso • cofrestr risg

Uwchlaw'r safon perfformiad	4. Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus hefyd yn cynnwys: • cyllideb cyfranogiad penodol a dadansoddiad o sut fydd hon yn cael ei defnyddio • asesiad o anghenion y cynulleidfaoedd gwahanol hynny a'r dulliau mwyaf effeithiol o'u cyrraedd • cynlluniau ar gyfer gwahanol weithgareddau ar adegau gwahanol o'r flwyddyn • gwerthusiad sy'n arwain at ddadansoddiad rhagweithiol o wersi a ddysgwyd er mwyn hysbysu argymhellion ar gyfer gweithgaredd cyfranogiad newydd neu well ar gyfer y dyfodol		• strategaeth ysgrifenedig • cynllun gwerthuso • cofrestr risg • cyllideb cyfranogiad • tystiolaeth o werthusiad rhagweithiol megis adroddiadau gwersi a ddysgwyd a/neu argymhellion i wella gweithgaredd yn y dyfodol

Safon perfformiad 6: Strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus

Cwrdd â'r safon perfformiad (lefel 3)

4.45 I gwrdd â'r 'Safon perfformiad' rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gael strategaeth ysgrifenedig, cynllun gwerthuso a chofrestr risg i drafod y gweithgareddau ymwybyddiaeth gyhoeddus y maent yn eu cynnal.

4.46 Mae'n bwysig nodi nad oes rhaid i hon fod yn strategaeth ar wahân i'r strategaeth sydd ei hangen i gwrdd â Safon perfformiad 5 *Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau*'r Comisiwn (Mawrth 2009) sydd ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/performance-standards. Yn wir, yn dibynnu ar strwythur a rhaniad cyfrifoldebau'r swyddogaethau cofrestru ac etholiadau lleol, mae'n bosib y bydd buddiannau mewn strategaeth ar y cyd ar gyfer cofrestru ac etholiadau gan fod gorgyffyrddiad amlwg rhwng y ddau yn nhermau gweithgaredd cyfranogiad a chyfathrebu. Gall strategaeth ar y cyd hefyd annog partneriaethau gweithio effeithiol rhwng Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau, timau cyfathrebiadau ac eraill yn y cyngor.

4.47 Dylai'r holl strategaethau drafod y pwyntiau isod, fel yr amlinellwyd yn y safon:

- dynodi cynulleidfaoedd targed – mae'n bwysig dynodi pa grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn nhermau cofrestru etholiadol yn yr ardal a'r rheiny y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol eisiau eu cyrraedd drwy eu gweithgaredd
- amcanion a mesurau llwyddiant sydd wedi'u diffinio'n glir, h.y. beth mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol eisiau ei gyflawni a sut fydd llwyddiant yn edrych?
- risgiau – adnabod a lliniaru – dylai'r strategaeth neu gofrestr risg ar wahân ddynodi'r holl risgiau a'r gweithredoedd angenrheidiol a ddynodir i ostwng neu liniaru risgiau
- adnoddau (ariannol a staffio) – mae'n bwysig ystyried faint o gyllideb sydd ar gael ac a oes unrhyw adnoddau y gellid cael mynediad atynt, er enghraifft Cronfa Cyfranogaeth Etholiadol y Weinyddiaeth Gyfiawnder[5]
- cynllun gwerthuso sy'n cofnodi canlyniadau'r gweithgareddau a gynhelir, ac sy'n angenrheidiol ar gyfer mesur effeithiolrwydd prosiect a dangos llwyddiannau

[5] Gweler tudalen 33 am ragor o fanylion ynghylch Cronfa Cyfranogaeth Etholiadol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Gellir canfod cyngor ar ddatblygu strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwerthuso gwaith ymwybyddiaeth gyhoeddus, gan gynnwys enghreifftiau o fesurau llwyddiant a dulliau gwerthuso, yn *Rhan I – Hygyrchedd a chyfranogiad*.

Gellir canfod gwybodaeth bellach gan gynnwys templed ar gyfer strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus, templed cynllun gwerthuso a chyngor ymarferol ar wefan Do Politics y Comisiwn yn www.dopolitics.org.uk.

Uwchlaw'r safon perfformiad (lefel 4)

4.48 I fod 'Uwchlaw'r safon perfformiad', yn ogystal â'r gofynion uchod, dylai'r strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus ddogfennu cyllideb cyfranogaeth benodol, asesu anghenion gwahanol gynulleidfaoedd a'r dulliau mwyaf effeithiol o'u cyrraedd, cynllunio ar gyfer gwahanol weithgareddau ar adegau gwahanol o'r flwyddyn a chael tystiolaeth bod gweithredu wedi digwydd ar ganfyddiadau'r cynllun gwerthuso.

4.49 Wrth ddatblygu strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus, dylid ystyried ystyriaethau cyllideb. I fod 'Uwchlaw'r safon perfformiad', dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol allu darparu tystiolaeth eu bod wedi cynllunio a defnyddio cyllideb cyfranogaeth neu gyhoeddusrwydd un pwrpas yn effeithiol. Dylai'r strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus gynnwys cyfeiriad at y gyllideb a dadansoddiad o sut y bydd y cronfeydd yn cael eu gwario.

Mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder Gronfa Cyfranogaeth Etholiadol (cyfanswm o £2.5 miliwn fesul blwyddyn ariannol), y gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Cofrestru yn Lloegr a Chymru hawlio yn ei herbyn i wrthbwyso'r gwariant a gawsant wrth ddilyn Adran 69 o'r Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (EAA). Mae'r gronfa ar gael ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud ag unrhyw etholiad statudol ac/neu gofrestru. Mae'r hawl uchafswm nominal sydd gan Swyddog Cofrestru Etholiadol neu Swyddog Cofrestru penodol yr hawl iddo yn cael ei bennu trwy gyfeirio at yr ardal awdurdod lleol a'i gyfrifo ar sail 'fesul etholwr lleol'. Gellir cyflwyno hawliadau ar y cyd hefyd ag awdurdodau lleol eraill. Am ragor o fanylion, cysylltwch, os gwelwch yn dda, gydag Adran Etholiadau a Democratiaeth Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar 0203 334 3837.

Yn yr Alban, mae ariannu'n cael ei ddarparu i awdurdodau lleol drwy eu Gwariant Cymorth Grant, a fwriadwyd i'w ddefnyddio i gwrdd â'r cyfrifoldebau sy'n codi o'r EAA. Er nad yw'n arian wedi'i neilltuo, dylai fod ar gael i annog cyfranogaeth mewn etholiadau, i wneud paratoadau ar gyfer cyflwyno dyletswyddau newydd ac unrhyw ymrwymiadau eraill a osodir gan y Ddeddf. Gellir cysylltu â Sheila Scobie yn Swyddfa'r Alban ar 0131 244 9009 am ragor o fanylion.

4.50 Yn ogystal â'r cynllun gwerthuso a ddisgrifiwyd uchod i gwrdd â 'Safon perfformiad' (sy'n dogfennu'r gweithgareddau a gynhaliwyd a'r canlyniadau a gyflawnwyd), dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol allu darparu tystiolaeth eu bod wedi ymgymryd â gwerthusiad rhagweithiol er mwyn bod 'Uwchlaw'r safon'. Pwrpas y gwerthusiad rhagweithiol yw dadansoddi'r gweithgaredd a'r canlyniadau er mwyn cytuno ar wersi a ddysgwyd y gellid eu defnyddio i hysbysu argymhellion ar gyfer gweithgaredd cyfranogiad newydd neu well yn y dyfodol. Gall gwerthusiad rhagweithiol gynnwys cyfarfodydd gwerthusiad gyda phrif randdeiliaid/partneriaid, adroddiadau gwerthusiad yn nodi gwersi a ddysgwyd o'r gweithgareddau a gynhaliwyd, neu gymhariaeth o'r canlyniadau a gyflawnwyd gyda'r targedau a osodwyd er mwyn deall yr hyn a fu'n effeithiol neu aneffeithiol.

Safon perfformiad 7: Gweithio gyda phartneriaid **Pwnc:** Cyfranogaeth			**Cefnogi themâu gweledigaeth**: **Ffocws defnyddiwr** – proses syml a hygyrch i ymgeiswyr ac etholwyr
Nod y safon yma yw sicrhau fod Swyddogion wedi ymchwilio'r rhinweddau o weithio gyda phartneriaid addas, a gweithio gyda hwy ble'n briodol i hyrwyddo cyfranogiad etholiadol.			
Perfformiad yn erbyn y safon		**Asesiad**	**Tystiolaeth i gefnogi'r asesiad**
Dim yn cwrdd â'r safon perfformiad ar hyn o bryd	1. Nid yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi ystyried gweithio gydag unrhyw bartneriaid posib i hyrwyddo cyfranogiad etholiadol.		
	2. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi dynodi'r posibilrwydd a'r buddiannau o weithio gyda phartneriaid ond heb weithredu ar ganfyddiadau'r gwaith hwn.		
Safon perfformiad	3. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi ymgynghori ag adrannau eraill o'r awdurdod lleol i hyrwyddo cyfranogiad etholiadol ac wedi gwerthuso'r costau/buddiannau o drefniant gweithio ar y cyd, ac wedi sicrhau bod dyblygiad ymdrech a gwariant diangen yn cael ei osgoi.		• cofnodion o gyfarfodydd/trafodaethau/ gohebiaeth ag adrannau eraill • cofnod o waith a wnaethpwyd (megis cynllun gwerthuso yn dangos canlyniadau gweithio ar y cyd)
Uwchlaw'r safon perfformiad	4. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ymgysylltu'n weithredol ag adrannau eraill yr awdurdod lleol ac wedi dynodi ac ymgynghori â chyrff allanol (megis awdurdodau eraill, Swyddogion Cofrestru Etholiadol eraill, cyfryngau lleol a grwpiau cymunedol) i bennu p'un a yw gweithio gyda phartneriaid yn gallu helpu i gyflawni amcanion y strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus. Ymgymerwyd â gwaith ar y cyd ble bo'n briodol. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd wedi datblygu methodoleg werthuso ar gyfer yr holl		• cofnodion o gyfarfodydd/trafodaethau/ gohebiaeth ag adrannau eraill a chyrff allanol • cofnod o waith a wnaethpwyd a gwerthusiad o'r gwerth penodol a ychwanegir trwy weithio ar y cyd • cynlluniau ar gyfer gweithio ar y cyd yn y dyfodol sy'n adeiladu ar y perthnasau a ddatblygwyd

	weithgareddau yr ymgymerwyd â hwy gyda phartneriaid allanol ac yn defnyddio hon i gynllunio gwaith yn y dyfodol.		

Safon perfformiad 7: Gweithio gyda phartneriaid

Cwrdd â'r safon perfformiad (lefel 3)

4.51 I gwrdd â'r 'Safon perfformiad' rhaid i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fod wedi ymgynghori ag adrannau eraill eu hawdurdod lleol penodedig a gallu darparu cofnodion o gyfarfod/gohebiaeth. Mae gofyn hefyd i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol werthuso costau/buddiannau trefniant gweithio ar y cyd a gallu darparu tystiolaeth o werthusiad o'r fath i gefnogi'r asesiad.

Mae *Rhan I – Hygyrchedd a chyfranogiad* yn cynnwys enghreifftiau o sut i weithio gyda phartneriaid, megis trefnu grŵp gweithio lleol i roi mewnbwn i'r strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus, neu glymu gwaith cyfranogiad i ddigwyddiadau presennol. Mae gwefan Do politics y Comisiwn www.dopolitics.org.uk hefyd yn darparu:

- cyngor ar weithio gyda'r cyfryngau, gan gynnwys templed o ddatganiadau i'r wasg ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, ac awgrymiadau ar sut i gael eich cyfweld
- astudiaethau achos o waith cyfranogiad a wnaethpwyd gan amrediad o sefydliadau gyda gwahanol gynulleidfaoedd targed
- cylchlythyr rheolaidd yn tynnu sylw at brosiectau perthnasol sy'n cael eu cynnal gan amrediad o sefydliadau

4.52 Er mwyn gwerthuso trefniant gweithio ar y cyd dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried yr holl bartneriaid posib, pa werth y gallant ei ychwanegu at y gweithgaredd sy'n cael ei gynllunio, ac unrhyw risgiau cysylltiedig ag unrhyw weithio ar y cyd. Os yr ystyrir ei fod yn briodol, yna dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd allu dangos pa waith yr arweiniodd hyn at iddo gael ei wneud.

Uwchlaw'r safon perfformiad (lefel 4)

4.53 I fod 'Uwchlaw'r safon perfformiad', yn ychwanegol at yr uchod, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol allu darparu cofnod o ohebiaeth â chyrff allanol a hefyd gallu darparu'r fethodoleg werthuso ar gyfer gweithgareddau yr ymgymerwyd â hwy, sy'n cael ei defnyddio i hysbysu cynllunio gweithio ar y cyd yn y dyfodol.

4.54 Bydd cyrff allanol posib y mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol efallai eisiau eu cynnwys yn dibynnu ar amgylchiadau lleol, ond gallant gynnwys:

- swyddogion Cofrestru Etholiadol neu Swyddogion Cofrestru eraill yn yr ardal gyfagos
- cyfryngau lleol megis papurau newydd neu orsafoedd radio
- grwpiau sector gwirfoddol a all gynrychioli, neu sydd â dylanwad ar y cynulleidfaoedd targed (e.e. sefydliadau democratiaeth ieuenctid, Operation Black Vote, sefydliadau anabledd)
- ysgolion a cholegau
- cymdeithasau tai

- clybiau chwaraeon
- grwpiau ffydd

Gellir canfod cyngor ar werthuso gweithgaredd cyfranogiad, gan gynnwys ffyrdd o gynnwys partneriaid, yn *Rhan I – Hygyrchedd a chyfranogiad*.

Mae gwefan Do Politics y Comisiwn yn www.dopolitics.org.uk hefyd yn darparu:

- templed o gynllun gwerthuso
- templed o adroddiad gwerthuso
- rhestr termau o dermau gwerthuso
- gwybodaeth a chyfarwyddyd ar waith ymwybyddiaeth gyhoeddus

Safon perfformiad 8: Hygyrchedd a chyfathrebu gwybodaeth **Pwnc:** Cyfranogaeth			**Cefnogi themâu gweledigaeth**: **Ffocws defnyddiwr** – proses syml a hygyrch i ymgeiswyr ac etholwyr
Nod y safon hon yw sicrhau fod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cyfathrebu gwybodaeth cofrestru etholiadol yn effeithiol, ac yn darparu ffordd syml a chyfeillgar i'r defnyddiwr gael gafael ar y wybodaeth i annog ceisiadau i gofrestru.			
Perfformiad yn erbyn y safon		**Asesiad**	**Tystiolaeth i gefnogi'r asesiad**
Dim yn cwrdd â'r safon perfformiad ar hyn o bryd	1. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn darparu gwybodaeth mewn un fformat ac nid yw ef/hi wedi cymryd i ystyriaeth anghenion cynulleidfaoedd gwahanol (er enghraifft cyfieithu neu fformatau eraill). Nid oes unrhyw fecanweithiau ymateb yn eu lle (megis ffôn, gwefan neu e-bost) i sicrhau bod gwybodaeth yn gywir ac wedi'i chyfathrebu'n briodol.		
Safon perfformiad	2. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn nodi deddfwriaeth berthnasol ac ymchwil penodol sydd wedi'i gynnal ac/neu ymgynghoriad gyda sefydliadau priodol i bennu'r ieithoedd a fformatau priodol ar gyfer cyfathrebu gyda'r cynulleidfaoedd perthnasol. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yna'n cyfathrebu'r wybodaeth yn y modd mwyaf hygyrch (gwefan/copi caled/gwasanaethau teleffoni) yn yr ieithoedd a fformatau priodol. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn sicrhau bod yr holl gyfathrebiad a anfonir allan yn darparu manylion cyswllt y swyddfa leol er mwyn caniatáu i bartïon â diddordeb ymateb a chanfod rhagor o wybodaeth.		• cofnod o ymchwil a wnaethpwyd • enghreifftiau o sut y penderfynwyd ar yr ieithoedd a fformatau priodol • manylion ynghylch sut y penderfynwyd ar y dull mwyaf hygyrch o gyfathrebu gwybodaeth • manylion am y nifer priodol o gyfryngau cyfathrebu y penderfynwyd arnynt

Uwchlaw'r safon perfformiad	3. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn ymateb i newidiadau ym mhatrwm demograffig ardal yr awdurdod lleol ac yn ymchwilio'n weithredol i p'un a oes angen fformatau neu ieithoedd eraill. Mae staff y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn dynodi a darparu cefnogaeth i'r rheiny sy'n cael anhawster llenwi'r ffurflenni perthnasol, yn eu swyddfeydd ac yng nghartrefi'r etholwyr (ar gais) drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn mesur ac yn cofnodi llwyddiant y dulliau lledaenu gwybodaeth gwahanol ac yn seilio gwaith y dyfodol ar y gwerthusiad hwn.		Yn ychwanegol i'r dystiolaeth a amlinellir uchod: • manylion am y nifer priodol o gyfryngau cyfathrebu y penderfynwyd arnynt • manylion ynghylch pa fonitro sy'n digwydd • manylion yn amlinellu'r dull ar gyfer darparu cymorth • cynllun gwerthuso

Safon perfformiad 8: Hygyrchedd a chyfathrebu gwybodaeth

Cwrdd â'r safon perfformiad (lefel 2)

4.55 I gwrdd â'r 'Safon perfformiad' dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol allu dangos pa ystyriaethau gafwyd wrth benderfynu p'un a i gynhyrchu gwybodaeth mewn ieithoedd a fformatau eraill (a allai gynnwys nodi deddfwriaeth berthnasol, ymchwil penodol ac ymgynghoriad gyda sefydliadau priodol), a darparu manylion am sut y penderfynwyd ar y dull mwyaf hygyrch o gyfathrebu gwybodaeth. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd yn sicrhau bod yr holl gyfathrebu a anfonir allan yn darparu manylion cyswllt y swyddfa leol.

4.56 Bydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gymryd sylw o ymchwil penodol ac/neu ymgynghori â sefydliadau perthnasol i benderfynu ar ieithoedd a fformatau perthnasol. Gall hyn gynnwys:

- trafod gydag adrannau perthnasol o fewn yr awdurdod lleol (e.e. cyfathrebiadau, timau gwasanaeth ieuenctid a chymunedol, swyddog mynediad)
- cysylltu â Swyddogion Cofrestru Etholiadol eraill
- defnyddio ymchwil a wnaethpwyd gan sefydliadau eraill, fel y Comisiwn, Cymdeithas Llywodraeth Leol neu adrannau llywodraeth
- gweithio gyda sefydliadau sy'n cynrychioli cynulleidfaoedd penodol, fel Operation Black Vote, Ffederasiwn y Pwyliaid ym Mhrydain, neu Senedd Ieuenctid y DU

4.57 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol allu darparu manylion ynglŷn â sut y penderfynwyd ar y dull mwyaf hygyrch o gyfathrebu gwybodaeth. Bydd angen cysylltu mewn dulliau gwahanol gyda gwahanol gynulleidfaoedd, ac ni fydd un dull cyfathrebu neu fformat o anghenraid yn ddigon i gyrraedd pob cynulleidfa. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried a nodi:

- Anghenion cyfathrebu gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft, pa rwystrau sydd ganddynt a all eu rhwystro rhag cymryd rhan?
- Arferion cyfathrebu gwahanol gynulleidfaoedd – sut maent yn hoffi derbyn gwybodaeth? Faint o fanylion maent eu hangen? Pa fath o gyfrwng maent yn ei ddefnyddio amlaf (e.e. radio, y wasg, wyneb yn wyneb, taflenni drwy'r drws)?

Mae *Rhan I – Hygyrchedd a chyfranogiad* yn cynnwys gwybodaeth ynghylch deall a chyfathrebu gyda gwahanol gynulleidfaoedd.

Mae gwefan Do Politics y Comisiwn ar www.dopolitics.org.uk hefyd yn darparu:

- amrediad o ddeunyddiau am ddim megis taflenni ar ffurf glywedol, print bras a Braille ac wedi eu cyfieithu i wahanol ieithoedd a phosteri (ar gael i'w lawrlwytho neu eu harchebu fel copi caled)
- syniadau a chyngor ynghylch gwella mynediad at wybodaeth ynglŷn â'r broses etholiadol
- syniadau ynghylch gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd
- astudiaethau achos o waith gan amrediad o sefydliadau i gyrraedd gwahanol gynulleidfaoedd

Uwchlaw'r safon perfformiad (lefel 3)

4.58 Er mwyn bod 'Uwchlaw'r safon perfformiad', yn ychwanegol at yr uchod, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd allu darparu manylion ynghylch pa fonitro sy'n digwydd i'w galluogi i fod yn ymatebol i newidiadau ym mhatrymau demograffig yr ardal, darparu manylion yn amlinellu'r dull o roi cefnogaeth i'r rhai sy'n cael anhawster cwblhau'r ffurflenni angenrheidiol, a darparu tystiolaeth o'r gwerthusiad sy'n mesur a chofnodi llwyddiant y gwahanol ddulliau lledaenu gwybodaeth.

4.59 Unwaith bo'r ymarferion hygyrchedd wedi eu rhoi yn eu lle, mae'n bwysig bod y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn parhau'n ymatebol i newidiadau ym mhatrymau demograffig yr ardal trwy ymchwilio'n weithredol i p'un a oes angen rhagor o fformatau neu ieithoedd. Gall monitro gynnwys:

- cyfarfod yn rheolaidd â rhanddeiliaid megis adrannau eraill awdurdod lleol, grwpiau cymunedol a Swyddogion Cofrestru Etholiadol eraill, a fydd yn gymorth i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol aros yn gyfoes â newidiadau o'r fath
- adborth ynghylch anghenion hygyrchedd (megis ceisiadau am gyfieithiadau ychwanegol), y dylid eu cofnodi'n systematig a'u hadolygu fel y gall deunydd newydd neu'r wybodaeth sydd ei hangen gael ei hamserlennu a'i gweithredu

4.60 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd ddarparu manylion sy'n amlinellu'r dull o roi cefnogaeth i'r rhai sy'n cael anhawster cwblhau'r ffurflenni angenrheidiol yn eu swyddfeydd ac yng nghartrefi etholwyr (pan ofynnir am hynny) gydol y flwyddyn.

4.61 Yn ychwanegol, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gael sail dystiolaeth gadarn ynglŷn â pham maent wedi dewis dulliau penodol. Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol fesur a chofnodi llwyddiant y gwahanol ddulliau lledaenu gwybodaeth a seilio gwaith i'r dyfodol ar y gwerthusiad hwn. Gall

cynllun gwerthuso y gwahanol ddulliau lledaenu gwybodaeth gynnwys ystyriaeth o'r pwyntiau canlynol:

- pa ddulliau sy'n gweithio fwyaf effeithiol?
- pa opsiynau eraill sydd a pha dystiolaeth sydd yna ynghylch pa ddulliau sy'n gweithio orau?
- canlyniadau arolygon/ holiaduron / adborth ynglŷn â gwahanol ddulliau

Ceir cyngor ar werthuso, yn cynnwys enghreifftiau o fesurau llwyddiant a dulliau gwerthuso yn *Rhan I – Hygyrchedd a chyfranogiad*.

Hefyd gellir cael gwybodaeth bellach yn cynnwys templed cynllun gwerthuso a chyngor ymarferol ar wefan Do Politics y Comisiwn ar www.dopolitics.org.uk.

Cynllunio a threfniadaeth

Safon perfformiad 9: Cynllunio ar gyfer cofrestru parhaus a'r canfasiad blynyddol **Pwnc:** Cynllunio a threfniadaeth			**Cefnogi themâu gweledigaeth**: **Proffesiynoliaeth** – dull cyflenwi clir a chyson
Mae'r safon hon yn anelu at sicrhau bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi datblygu prosesau cynllunio cadarn ar gyfer cofrestru parhaus a'r canfasiad blynyddol.			
Perfformiad yn erbyn y safon		**Asesiad**	**Tystiolaeth i gefnogi'r asesiad**
Dim yn cwrdd â'r safon perfformiad ar hyn o bryd	1. Nid oes gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol gynllun ysgrifenedig cynhwysfawr, ac mae'n dibynnu ar reolaethau rheoli di-strwythur megis diweddariadau llafar neu ysgrifenedig, a phrofiad blaenorol yn unig. Nid yw amcanion, risgiau ac adnoddau'n cael eu dogfennu.		
Safon perfformiad	2. Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol gynlluniau ysgrifenedig yn eu lle ar gyfer cofrestru parhaus a'r canfasiad blynyddol. Dylai'r rhain gynnwys: • amcanion a mesurau llwyddiant a ddiffiniwyd yn glir • risgiau – adnabod a lliniaru • recriwtio staff dros dro/parhaol ble fo angen • adnoddau ariannol • cynllun gwerthuso sy'n cofnodi canlyniadau'r gweithgareddau a gynhaliwyd		• cynllun(iau) • cofrestr risg • dynodi'r adnoddau angenrheidiol • trefniadau parhad busnes
Uwchlaw'r safon perfformiad	3. Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol: • wedi cynllunio cyllideb benodol ar gyfer cofrestru parhaus a'r canfasiad blynyddol, gyda dadansoddiad o'r modd y defnyddir hyn • wedi dynodi ac asesu anghenion y cynulleidfaoedd mwyaf anodd eu cyrraedd		• cynllun fel y disgrifir uchod • cynllun parhad busnes

	• gyda chynllun parhad busnes/ cynllun olyniaeth i liniaru amgylchiadau na ellir eu rhagweld megis absenoldeb staff		

Safon perfformiad 9: Cynllunio ar gyfer cofrestru parhaus a'r canfasiad blynyddol

Cwrdd â'r safon perfformiad (lefel 2)

4.62 Er mwyn cwrdd â 'Safon perfformiad' dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gael cynllun ysgrifenedig ar gyfer rheoli cofrestru parhaus a'r canfasiad blynyddol.

4.63 Dylai'r holl gynlluniau ymdrin â'r canlynol:

- amcanion a mesurau llwyddiant wedi'u diffinio'n glir, h.y. beth ydych chi eisiau ei gyflawni a sut beth fydd llwyddiant?
- risgiau – dynodi a lliniaru – dylai'r cynllun neu gofrestr risg ar wahân ddynodi'r holl risgiau a'r gweithredu angenrheidiol a ddynodwyd i leihau neu liniaru'r risgiau
- recriwtio staff dros dro/parhaol ble bo angen
- dynodi adnoddau ariannol ac eraill – mae'n bwysig ystyried faint o gyllideb sydd ar gael
- cynllun gwerthuso sy'n cofnodi canlyniadau'r gweithgareddau a gynhaliwyd, sy'n angenrheidiol er mwyn mesur effeithiolrwydd prosiect a dangos cyflawniadau

4.64 Dylai'r cynlluniau a'r wybodaeth uchod fod ddigon clir a manwl fel y gallent gael eu dilyn gan unigolion y dirprwyir y gwaith iddynt i'w wneud ar ran y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae'n bwysig nodi nad oes angen i hwn fod yn gynllun ar wahân er mwyn i'r cynllun gwrdd â Safon perfformiad 3: Ymholiadau tŷ-i-dŷ, cyn belled â bod y cynllun yn cwrdd â'r holl ofynion a amlinellir yn y safon.

Mae templed cynlluniau ar gyfer rheoli cofrestru parhaus a'r canfasiad blynyddol ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan ar: www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/electoral-registration/managing-electoral-registration-services

Uwchlaw'r safon perfformiad (lefel 3)

4.65 Er mwyn bod 'Uwchlaw'r safon perfformiad', yn ychwanegol at yr uchod, dylai'r cynllun hefyd amlinellu'r gyllideb, a dynodi'r cynulleidfaoedd mwyaf anodd eu cyrraedd ac unrhyw anghenion penodol sydd o bosib ganddynt.

4.66 Dylai dynodi angen ymhlith y cynulleidfaoedd mwyaf anodd eu cyrraedd gynnwys y modd mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn bwriadu sicrhau'r cofrestru mwyaf bosib gan y grwpiau hyn.

4.67 Dylid cael cynlluniau parhad busnes yn eu lle i ymdrin â cholli staff, colli gwasanaeth a cholli lleoliad. Dylai'r rhain ddynodi yr hyn y gellir ei wneud os yw'r fath risgiau'n digwydd, a sicrhau bod yr opsiynau ar gyfer delio â'r fath amgylchiadau'n cael eu hamlinellu'n glir. Gellir amlinellu'r rhain hefyd yn y gofrestr risg. Mae llawer o arbenigedd o fewn awdurdodau lleol o safbwynt rheoli risgiau, y gellid galw arnynt i roi cymorth gyda'r broses hon.

Safon perfformiad 10: Hyfforddiant **Pwnc:** Cynllunio a threfniadaeth			**Cefnogi themâu gweledigaeth:** **Proffesiynoliaeth** – dull cyflenwi clir a chyson
Mae'r safon hon yn anelu at sicrhau bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol wedi darparu'r hyfforddiant perthnasol i staff gyflenwi'r prosesau cofrestru parhaus a'r canfasiad blynyddol.			
Perfformiad yn erbyn y safon		**Asesiad**	**Tystiolaeth i gefnogi'r asesiad**
Dim yn cwrdd â'r safon perfformiad ar hyn o bryd	1. Nid yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn darparu unrhyw hyfforddiant i naill ai staff parhaol na dros dro, heblaw am gwrs cyflwyno sylfaenol.		
	2. Dim ond i aelodau staff parhaol mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn darparu hyfforddiant sylfaenol perthnasol, er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofynion deddfwriaethol		• atodlen o weithgareddau hyfforddiant
Safon perfformiad	3. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn darparu'r hyfforddiant perthnasol i staff parhaol a dros dro er mwyn sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofynion deddfwriaethol.		• atodlen o weithgareddau hyfforddiant
Uwchlaw'r safon perfformiad	4. Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi rhoi yn ei le gynllun hyfforddiant ysgrifenedig cynhwysfawr i staff parhaol a dros dro, ac mae'n gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun (trwy ddefnyddio system o adborth ac adolygiad) ar sail flynyddol.		• atodlen o weithgareddau hyfforddiant • cynllun hyfforddiant • cynllun gwerthuso ac adroddiadau

Safon perfformiad 10: Hyfforddiant

Cwrdd â'r safon perfformiad (lefel 3)

4.68 Er mwyn cwrdd â'r 'safon perfformiad' dylai'r holl staff (p'un a ydynt yn barhaol neu dros dro) dderbyn hyfforddiant er mwyn deall a chyflawni eu rolau.

4.69 Bydd yr atodlen o weithgareddau hyfforddiant yn rhestru'r testunau yr ymdrinnir â hwy yn yr hyfforddiant, a dylent ymdrin â phryd a sut bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflenwi. Dylai'r atodlen ymdrin â'r holl hyfforddiant a roddir i sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofynion deddfwriaethol, p'un a yw'n cael ei ddarparu gan ffynonellau mewnol neu allanol ar gyfer:

- staff parhaol
- staff dros dro sy'n gweithio yn swyddfa'r Swyddog Cofrestru Etholiadol
- y rhai sy'n ymwneud ag ymholiadau tŷ-i-dŷ
- y rhai sy'n monitro staff sy'n gwneud ymholiadau tŷ-i-dŷ
- y Swyddog Cofrestru Etholiadol gan ei staff

Mae *Rhan C – Y canfasiad blynyddol* (Adran 2) yn darparu gwybodaeth ar hyfforddiant canfaswyr.

Mae adnoddau eraill ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan ar www.electoralcommission.org.uk/guidance/resources-for-electoral-administrators/electoral-registration/managing-electoral-registration-services

Mae'r adnoddau'n cynnwys:
- templed llawlyfr cyfarwyddyd canfaswyr
- datganiad pwrpas y canfasiad blynyddol o etholwyr
- templed PowerPoint o sesiwn briffio canfaswyr

Uwchlaw'r safon perfformiad (lefel 4)

4.70 Er mwyn bod 'Uwchlaw'r safon perfformiad', yn ychwanegol at yr uchod, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd allu darparu cynllun hyfforddiant a chynllun gwerthuso.

4.71 Bydd y cynllun hyfforddiant yn ehangu ar yr atodlen trwy gynnwys manylion am y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys a'r dulliau a gweithgareddau i gyflenwi'r rhain. Gall y cynllun gynnwys gopïau neu gysylltiadau at gyflwyniadau neu nodiadau o'r wybodaeth sydd i'w chyflwyno.

4.72 Dylai'r cynllun gwerthuso, p'un a yw wedi'i gynnwys yn y cynllun hyfforddiant neu mewn dogfen ar wahân, fonitro effeithiolrwydd yr hyfforddiant a chynnwys dulliau o werthuso'r gweithgareddau hyfforddiant a sut y gellir addasu'r hyfforddiant i alluogi gwelliant parhaus. Gall y dulliau o werthuso gweithgareddau hyfforddiant unigol gynnwys darparu ffurflenni adborth i staff sy'n mynychu gweithgareddau hyfforddiant. Dylai'r cynllun gwerthuso fonitro nid yn unig effeithiolrwydd gweithgareddau hyfforddiant unigol, ond hefyd

effeithiolrwydd y cynllun hyfforddiant yn ei gyfanrwydd, a chael ei ddefnyddio i ddiweddaru a hysbysu hyfforddiant i'r dyfodol.

5 Deddfwriaeth

Adrannau 9A a 9B, Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

9A Gosod safonau perfformiad

(1) Gall y Comisiwn o bryd i'w gilydd—
- (a) benderfynu ar Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion perthnasol, a
- (b) chyhoeddi, yn y fath fodd a'r fath ddull yr ystyrient yn berthnasol, y safonau y penderfynwyd arnynt.

(2) Mae'r safonau perfformiad yn safonau y cred y Comisiwn y dylent gael eu cyflawni gan—
- (a) Swyddogion Cofrestru Etholiadol wrth berfformio'u swyddogaethau;
- (b) Swyddogion Canlyniadau wrth weinyddu'r etholiadau y manylir arnynt yn isadran (6);
- (c) swyddogion cyfrif wrth weinyddu'r refferenda y manylir arnynt yn isadran (7).

(3) Cyn penderfynu ar safonau o dan isadran (1), rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â—
- (a) yr Ysgrifennydd Gwladol, ac
- (b) unrhyw unigolyn arall maent yn ystyried yn berthnasol.

(4) Gall y Comisiwn benderfynu ar wahanol safonau ar gyfer gwahanol ddisgrifiadau o swyddogion perthnasol.

(5) Pan fo'r Comisiwn yn cyhoeddi safonau o dan isadran (1) rhaid iddo anfon copi o'r safonau cyhoeddedig at yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gorfod gosod copi o'r safonau cyhoeddedig gerbron bob Senedd-dŷ.

(6) Yr etholiadau y manylir arnynt yn yr isadran hon yw—
- (a) etholiad a grybwyllir yn adran 5(2);
- (b) isetholiad seneddol;
- (c) etholiad o dan adran 9 Deddf yr Alban 1998 (etholaethau gwag);
- (d) etholiad o dan adran 8 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 (seddi etholaeth gwag);
- (e) etholiad llywodraeth leol yn Lloegr neu Gymru.

(7) Y refferenda y manylir arnynt yn yr isadran hon yw—
- (a) refferendwm y mae Rhan 7 yn berthnasol iddo;
- (b) refferendwm o dan Ran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

(8) I bwrpasau'r adran hon ac adrannau 9B a 9C, y swyddogion perthnasol yw—
- (a) Swyddogion Cofrestru Etholiadol;
- (b) yng nghyswllt etholiadau o fewn isadran (6), Swyddogion Canlyniadau;
- (c) yng nghyswllt refferenda o fewn isadran (7), swyddogion cyfrif.

9B Cofnodion ac adroddiadau ar safonau perfformiad

(1) Gall y Comisiwn o bryd i'w gilydd gyhoeddi cyfarwyddiadau i swyddogion perthnasol ddarparu'r Comisiwn gyda'r fath adroddiadau ynglŷn â'u lefel perfformiad yn erbyn y safonau a bennir o dan adran 9A(1) fel y gellir manylu arnynt yn y cyfarwyddyd.

(2) Mewn cyfarwyddyd o dan isadran (1)—

(a) rhaid nodi'r swyddog neu swyddogion perthnasol y cyhoeddir y cyfarwyddyd iddynt (a gall nodi'r disgrifiad neu ddisgrifiadau o'r swyddogion perthnasol),

(b) gall ei wneud yn ofynnol i'r adroddiad neu adroddiadau berthnasu i'r fath etholiadau neu refferenda (neu'r ddau) y gellir manylu arnynt yn y cyfarwyddyd, a

(c) gall ei wneud yn ofynnol i'r adroddiad neu adroddiadau gael ei ddarparu mewn ffurf y manylir arni yn y cyfarwyddyd.

(3) Gall adroddiad a baratoir i'r Comisiwn o ganlyniad i isadran (1) gael ei gyhoeddi gan y swyddog perthnasol y mae'n ymwneud ag ef.

(4) Bydd y Comisiwn o bryd i'w gilydd yn paratoi a chyhoeddi (yn y fath fodd ag y gall y Comisiwn benderfynu arno) asesiadau lefel perfformiad swyddogion perthnasol yn erbyn y safonau a bennir o dan adran 9A(1).

(5) Mewn asesiad o dan isadran (4)—

(a) rhaid nodi'r swyddog neu swyddogion perthnasol y mae'n ymwneud â hwy;

(b) rhaid nodi'r cyfnod y mae'n ymwneud ag ef;

(c) gall nodi'r etholiadau neu refferenda (neu'r ddau) y mae'n ymwneud â hwy.

(6) Ni ddylai'r Comisiwn baratoi asesiad o dan isadran (4) oni bai eu bod wedi derbyn adroddiadau o ganlyniad i isadran (1) gan y swyddog neu swyddogion perthnasol ar gyfer y materion mae'r asesiad yn ymwneud â hwy.

(7) Cyn cyhoeddi asesiad o dan isadran (4), bydd y Comisiwn—

(a) yn darparu copi i bob swyddog perthnasol o'r rhannau hynny o'r asesiad sy'n ymwneud ag ef;

(b) ystyried unrhyw sylwadau a wnaethpwyd ganddo ynghylch manwl gywirdeb ffeithiol yr asesiad.

6 Y weledigaeth ar gyfer gwasanaethau etholiadol o safon

Yn y Deyrnas Unedig, mae gan bobl hawl i ddweud pwy sy'n eu llywodraethu. Mae ganddynt felly'r hawl i bleidleisio (neu i beidio pleidleisio) yn gyfrinachol i'r sawl maent yn ddymuno, mewn ffordd sy'n hawdd iddynt bleidleisio, ac i gael cyfrif eu pleidlais. Maent yn disgwyl bod gwerthoedd craidd swydd gyhoeddus yn cael eu hymgorffori yn y gwasanaethau etholiadol (cofrestru ac etholiadau) ac y dylent gefnogi'r agenda foderneiddio a safonau moesegol mewn gwasanaeth cyhoeddus.				
	Gall etholwyr ddisgwyl	**Gall ymgeiswyr a phleidiau ddisgwyl**	**Gall y rhai sy'n ymwneud â gweinyddu ddisgwyl**	**Gall y rhai sy'n ymwneud â'r Llywodraeth a'r Comisiwn Etholiadol ddisgwyl**
Cywirdeb – proses ddiogel ar gyfer cofrestru a phleidleisio	• Gwybod bod y wybodaeth sy'n cael ei dal amdanynt yn gywir a bod yn glir ynghylch y modd mae'n cael ei defnyddio • Bod eu pleidlais yn gyfrinachol a'u bod yn medru pleidleisio yn rhydd oddi wrth bwysau • Gwybod bod eu pleidlais yn cael ei chyfrif	• Prosesau sy'n dryloyw ac yn cael eu gwirio • Canlyniadau manwl gywir	• Cefnogaeth gan gyrff megis y Comisiwn Etholiadol, adrannau llywodraeth and awdurdodau lleol • Annibyniaeth oddi wrth y pleidiau gwleidyddol • Heddlu, llysoedd ac erlynyddion sy'n gyfarwydd â'r gyfraith etholiadol	• Mae canlyniadau unrhyw etholiad yn cael eu derbyn gan y cyhoedd a'r ymgeiswyr • Mae gan y pleidleisiwr hyder yn y broses a'r canlyniadau
Ffocws defnyddiwr – proses syml a hygyrch i ymgeiswyr ac etholwyr	• Proses bleidleisio sy'n hawdd i'w deall • Cael dewis o ffyrdd i bleidleisio • Medru pleidleisio mewn ffordd sy'n gweddu i'w ffordd o fyw ac anghenion • Gwybodaeth a chyngor sy'n gywir, prydlon a hawdd i'w deall	• Gwybod sut i sefyll ar gyfer etholiad • Cysondeb dull ac amserlenni realistig • Eglurder ac amhleidioldeb yn y broses • Proses glir o wneud iawn	• Cyflenwyr allanol sy'n cyflenwi'r hyn a ddisgwylir ganddynt	• Staff etholiadol sy'n rhagweithiol yn annog cofrestru a phleidleisio • Cyfranogiad mewn democratiaeth yn cael ei weld fel rhan o ddinasyddiaeth weithredol

Proffesiynoliaeth – dull cyflenwi clir a chyson	• Gwybod os ydynt yn gymwys i gofrestru a phleidleisio • Gwybod sut a phryd i gofrestru a beth i'w wneud os ydynt yn symud • Gwybod ble i gael gwybodaeth a chyngor • Gwybod pwy a beth maent yn pleidleisio drosto • Addysgu pobl ifanc, eu cael i gofrestru a phleidleisio	• Y rhai sy'n ymwneud â gweinyddu'r broses i fod yn gwbl gyfarwydd â'r gyfraith etholiadol • Cymhwyso'r gyfraith etholiadol a'r prosesau yn gyson • Gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd clir ac amserol • Cydbwysedd perthnasol rhwng cyflymder ac ansawdd yn y broses	• Bod y fframwaith deddfwriaethol a'r rheolau cysylltiedig yn glir ac yn cael eu cymhwyso'n gyson • Hyfforddiant a chyfarwyddyd â ffocws ac yn amserol • Deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno mewn dull amserol • Bod y gwasanaeth etholiadol yn cael ei gydnabod fel gwasanaeth sy'n wynebu'r cwsmer	• Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'r unol â'r ddeddfwriaeth • Mae cysondeb mewn cyflenwi'r gwasanaeth
Gwerth am arian – cyflenwi gwasanaeth yn effeithiol ac effeithlon	• Defnydd effeithiol o arian cyhoeddus	• Gweinyddwyr etholiadol gyda'r sgiliau iawn • Gwiriadau ansawdd amserol i'w cynnal	• Adnoddau digonol ar gael i gyflenwi'r hyn a ddisgwylir • Cydnabod y cyd-destun, materion a blaenoriaethau lleol • Staff â sgiliau priodol mewn meysydd megis rheoli prosiectau, rheoli contractau, a Thechnoleg Cyfathrebu Gwybodaeth	• Uchafswm o gofrestru dinasyddion cymwys • Uchafswm o gyfranogiad mewn etholiadau • Defnydd priodol o arian y cyhoedd